**CYFARFOD HYBRID Y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 18fed Ionawr 2023 am 6.00pm.

**<u>YN BRESENNOL</u>**

Y Cynghorydd Mrs D. L. King (Maer)

Y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE,
Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney,
A. R. James, K. R. Jones, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James,
P. Prendergast, Ms V. Roberts, D. Simmons, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc

**100. <u>YMDDIHEURIADAU</u>**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs P. M. Jones ac A. J. Rutherford.

**101. <u>COFNODION</u>**

Cadarnhau fel cofnod cywir, gofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau (copiau'n amgaeedig):

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarfod y Cyngor | - | 21ain Rhagfyr 2022 | - | Rhifau Cofnod | 83-99 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *eu bod yn gofnod cywir.*

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cynllunio | - | 21ain Rhagfyr 2022 | - | Rhifau Cofnod | 37-39 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Mellor a ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *eu bod yn gofnod cywir.*

**102. <u>ADRODDIAD Y MAER</u>**

Cyfeiriodd y Maer at ddigwyddiadau y bu iddi hi a'r Dirprwy Faer eu mynychu ar ran y Cyngor dros y mis diwethaf (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen), yn enwedig y pantomeim Nadolig yn Theatr y Pafiliwn, lle gwnaethpwyd casgliad at ei helusennau, gan godi £386.64.

Dywedodd y Dirprwy Faer iddi gael amser gwych ar ddiwrnod Trochfa Gŵyl San Steffan yr RNLI, er nad oedd ddigon dewr i fod wedi mynd i'r môr!

**103. <u>ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A)</u>**

Cyfeiriodd y Maer ar adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu'r atoldne daliadau a waned a'r incwm a dderbyhniwyd.

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1526 | Tesco Mobile | 3.00 | Yswiriant misol |
| 1539 | BT | 269.17 | Llinellau ffôn a band eang |
| 1540 | HSBC | 8.00 | Taliadau banc 17 Hydref – 16eg Tachwedd 2022 |
| 1555 | HSBC | 32.00 | Ffi flynyddol cerdyn |
| 1552 | CThEF | 2,771.11 | Didyniadau PAYE Tachwedd 2022 |
| 1553 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 4,339.63 | Didyniadau pensiwn ac ariannu diffyg Tachwedd 2022 |
| 1554 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 10,685.02 | Cyflog net staff Cyngor Tref y Rhyl Rhagfyr 2022 |
| 1391 | Cyngor Sir ddinbych | 736.00 | AAC Swyddfeydd Dinesig, WRCC, y Rhyl |
| 1419 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.66 | Swyddog Apeliadau Rhan-amser – taliad 9 o 12 |
| 1435 | Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych | 2,000.00 | Swyddog Arbed Ynni 22/23 – taliad 3 o 4 |
| 1539 | Tesco Mobile | 3.00 | Taliad yswiriant misol |
| 1555 | Cyngor Sir Ddinbych | 15,000.00 | Partneriaeth TCC 22/23 |
| | **Cyfanswm taliadau** | **36,763.59** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 diwrnod | 41.27 |
| Santander | Llog ar Gyfrif Rhybudd 31 Diwrnod | 117.12 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Money Manager | 48.62 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 33.56 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 26.85 |
| Rhyl BID | Ad-daliad ar gyfer fframiau – cystadleuaeth ffenestri Nadolig | 22.00 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 23.01 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Praesept 2022/23 – cyfran 3 o 3 | 184,128.00 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 23.02 |
| | **Cyfanswm incwm** | **184,463.45** |

## 104. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â rheolau ariannol mabwysiedig y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau anrheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'w ychwanegu at y rhestr o gyflenwyr ar ôl cymeradwyaeth gany r aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r canlynol ar gyfer eu talu a'u llofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.*

| Cyflenwr | Manylion | Rhif Taleb | Swm £ |
|---|---|---|---|
| BJS Solutions | Llafur a darnau – gwaith CT Rhyl | 1572 | 864.00 |
| BJS Solutions | Adnewyddu gwrth-firws Trend | 1573 | 359.88 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| NMWATC | Cinio i ddau gynrychiolydd cyfarfod 20fed Ionawr 2023 | 1574 | 44.00 |
| Y Cyngh D. L. King | Treuiau'r Maer ar gyfer Rhagfyr 2023 | 1575 | 85.00 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Taliadau gwasanaeth ar gyfer Ionawr – Mawrth 2023 Ffordd Wellington | 1576 | 3,823.00 |
| Lawnscience | Triniaeth – Gerddi Coffa | 1577 | 40.00 |
| **Cyfanswm Atodlen B** | | | **£5,215.88** |

**Taliadau Brys:** Dim

**Taliadau Cerdyn:** Dim

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ddiwgiedig ar gyfer ei thalu, a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

**105. ADRODDIAD PERFFORMIAD BUDDSODDIAD - RHAGFYR 2022**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn hysbysu o wella cyfraddau llog gan arwain at well elw, yn enwedig ar Gyfrif Rhybudd 31 Diwrnod y Cyngor.

Awgrymodd Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid gynyddu'r swm adneuo yn y cyfrif hwnnw o £75,000 i £85,000 (£85,000 yw'r mwyaf sy'n bosibl oherwydd trefniadau amddiffyn Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol), er mwyn galluogi i'r Cyngor Tref fanteisio ymhellach ar y cyfraddau gwell.

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod yr adroddiad a chymeradwyo'r cynnydd yn y swm a ddelir yn y cyfrif 31 diwrnod i £85,000.*

**106. PENODI CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL: BWRDD TCC SIR DDINBYCH**

Adroddodd y Maer am ymddiswyddiad y Cynghorydd B. Mellor fel cynrychiolydd y Cyngor Tref ar fwrdd y bartneriaeth a gofynnodd i'r aelodau ystyried penodi cynrychiolydd arall a dirprwy.

Mae cyfarfod nesaf y bwrdd wedi ei drefnu ar gyfer 25ain Ionawr 2023.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd Ms J. McAlpine fel cynrychiolydd newydd y Cyngor Tref, a'r Cynghorydd A. R. James fel dirprwy.*

**107. YSBYTY FRENHINOL ALEXANDRA – CYFARFOD GYDA CHYNRYCHIOLWYR BWRDD IECHYD BETSI CADWALADR**

Ymehllach i gofnod rhif 45 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar 7fed Rhagfyr 2022, cyfeiriodd Clerc y Dref at lythyr a nodyn briffio a dderbyniwyd gan Mr Mark Polin OBE QPM, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen), ynd weud y byddai'n fwy buddiol i gynrychiolwyr y bwrdd iechyd fynychu cyfarfod y Cyngor Tref ym mis Mawrth.

***PENDERFYNWYD***:

*(i) Y byddai cynrychiolwyr y bwrdd iechyd, gobeithio, yn mynychu cyfarfod y Cyngor Tref ar 15fed Mawrth 2023.*

*(ii) Clerc y Dref i alw cyfarfod briffio hanner awr cyn cyfarfod mis Mawrth i alluogi i'r cynghorwyr baratoi set glir o gwestiynau a sylwadau.*

**108. HYFFORDDIANT COD YMARFER**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ohebiaeth a dderbyniwyd gan Swyddog Monitro Cyngor Sir Ddinbych (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn hysbysu o nifer o sesiynau hyyfforddi sydd ar gael i'r cynghorwyr eu mynychu.

Atgoffodd Clerc y Dref yr aelodau ei bod yn orfodol iddynt fynychu un sesiwn yn ystod eu cyfnod yn y swydd a gofynnodd i bob cynghorydd gadarnhau pa sesiwn y byddenyt yn ei fynychu, a pha rai a oedd hefyd yn Gynghorwyr Sir a oedd eisies wedi mynychu, fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Blakeley-Walker | – | eisoes wedi mynychu. |
| Y Cynghorydd Butterfield YH MBE | – | eisoes wedi mynychu. |
| Y Cynghorydd Chamberlain-Jones | – | 2il Chwefror arlein |
| Y Cynghorydd Chard | – | eisoes wedi mynychu. |
| Y Cynghorydd Evans | – | eisoes wedi mynychu. |
| Y Cynghorydd Feeney | – | 7fed Chwefror yn Nhŷ Russell |
| Y Cynghorydd James | – | eisoes wedi mynychu. |
| Y Cynghorydd K. R. Jones | – | methu mynychu yr un o'r dyddiadau. |
| Y Cynghorydd King | – | 2il Chwefror arlein. |
| Y Cynghorydd McAlpine | – | methu mynychu yr un o'r dyddiadau. |
| Y Cynghorydd Mellor | – | eisoes wedi mynychu. |
| Y Cynghorydd Mullen-James | – | eisoes wedi mynychu. |
| Y Cynghorydd Prendergast | – | eisoes wedi mynychu. |
| Y Cynghorydd Roberts | – | 2il Chwefror arlein. |
| Y Cynghorydd Simmons | – | 2il Chwefror arlein. |
| Y Cynghorydd Walker | – | eisoes wedi mynychu. |
| Y Cynghorydd Williams | – | eisoes wedi mynychu. |

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn hysbysu'r Swyddog Monitro o'r uchod a bod y gwahoddiadau/dolennau perthnasol yn cael eu hanfon yn uniongyrchol at y cynghorwyr gan Gyngor Sir Ddinbych.*

**109. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau pellach, datganodd y Maer bod y cyfarfod ar ben.

Dirprwy Faer: ……….………………..

Dyddiad: ………………..………..